# Uned 7.1: Defnyddio TGCh

## Ynglŷn â'r Uned:

Yn yr uned hon bydd disgyblion yn creu cyflwyniad amlgyfrwng gan ddefnyddio testun, delweddau a sain. Wrth iddynt greu eu tudalennau, disgwylir i ddisgyblion fod yn sensitif i anghenion eu cynulleidfa.

Mae'r uned yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth o bynciau cyffredinol, fel y rheolau ar gyfer gweithio gyda TGCh, cadw ac argraffu, parchu gwaith pobl eraill a chadw drafftiau ar gyfer portffolios a fydd yn cael eu hasesu. Hefyd mae'n paratoi disgyblion ar gyfer gweithio mewn ystafell TGCh sydd wedi'i rhwydweithio.

**Cwricwlwm Cymreig**: gallai'r cyflwyniadau gynnwys disgrifiad byr o Abertawe a'i hanes.

Disgwylir i'r uned gymryd tua **6 awr**.

## Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cysylltu ag uned 6A 'Cyflwyniad Amlgyfrwng' yng Nghynllun Gwaith Cyfnod Allweddol 2. Llunir yr uned hon fel uned bontio. Mae'n adeiladu ar y sgiliau y mae disgyblion wedi'u dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn galluogi athrawon i asesu galluoedd disgyblion a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu o'r blaen.

## Disgwyliadau

**Ar ddiwed yr uned hon**

**bydd mwyafrif y disgyblion:** yn defnyddio pecyn awduro amlgyfrwng i drefnu, mireinio a chyflwyno set o dudalennau amlgyfrwng sydd wedi'u cysylltu, sy'n cynnwys delweddau, seiniau a thestun

**ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant:** yn defnyddio pecyn awduro amlgyfrwng i gydosod delweddau, sain a thestun ar dudalen amlgyfrwng

**bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant: yn** defnyddio pecyn amlgyfrwng i drefnu, mireinio a chyflwyno set o dudalennau amlgyfrwng sydd wedi'u cysylltu, sy'n cynnwys delweddau, sain a thestun; yn creu tudalennau sy'n cynnig amrywiaeth o opsiynau i ddefnyddwyr; cyflwyno gwybodaeth sy'n diwallu anghenion y gynulleidfa.

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*

ICT Curriculum Team
*Tîm Cwricwlwm TGC*

## Geirfa ac Adnoddau

Bylchwr | Bwydo i mewn | Dileu| Ôl-fysell | Cadw | Adfer | mewngofnodi| drafftiau| llên-ladrad

Prosesydd Geiriau | Enghreifftiau o ysgrifennu | Llyfrau, cylchgronau a phapurau newyddion sydd wedi'u cyhoeddi

**Mae'r Adnoddau'n cynnwys:**

- Pecyn awduro amlgyfrwng
- Camera digidol a sganiwr
- meicroffon

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*

ICT Curriculum Team
*Tîm Cwricwlwm TGC*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd 1** | | | |
| • gweithio ar dasg benodol am gyfnod estynedig | • Esboniwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i gynhyrchu cyflwyniad amlgyfrwng amdanynt eu hunain a'u tref enedigol. Adolygwch y broses o lunio cyflwyniad ac awgrymwch bynciau i'w cynnwys. Dylai disgyblion gael cyfle i fewnosod graffeg syml gan ddefnyddio camerâu digidol a sganwyr ac i recordio sain ar gyfer eu cyflwyniad.<br>• Yn ddelfrydol, dylai'r cyflwyniad gynnwys cysylltiadau i dudalennau eraill, er byddai botymau syml (*er enghraifft, i droi sain ymlaen*) yn ddigonol. | • cynhyrchu cyflwyniad amlgyfrwng gyda thestun, graffeg a sain | • dylai disgyblion ddewis y cynnwys, *e.e. yr ysgol gynradd, teulu neu hobïau*.<br>• gallai disgyblion weithio mewn grwpiau, ond dylent fod yn gyfrifol yn unigol am gynhyrchu un tudalen o gyflwyniad. |
| • defnyddio'r rhwydwaith a'r offer sy'n gysylltiedig ag ef | • Wrth iddynt gynhyrchu eu cyflwyniad amlgyfrwng, esboniwch wrth y disgyblion sut i fewngofnodi i'w hardal nhw o'r rhwydwaith a sut i gadw eu gwaith. Trafodwch gonfensiynau ymddygiad o ran parch tuag at waith pobl eraill, defnyddio cyfrineiriau, copïo a llên-ladrad. Gofynnwch i'r disgyblion gadw drafftiau o'u gwaith. Hefyd dyma gyfle i esbonio'r confensiynau ar gyfer defnyddio offer, e*.e. argraffwyr, disgiau*, a defnyddio offer mewn modd cyfrifol, *e.e. gosodiadau sgrîn a defnydd o'r rhwydwaith.* | • defnyddio'r rhwydwaith a'r offer yn gywir ac yn effeithiol | • bydd pob un o'r confensiynau y cyfeiriwyd atynt yma yn wahanol o sefydliad i sefydliad, ond mae'r uned hon yn cynnig y cyfle i'w haddysgu i ddisgyblion wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd gwerth chweil. |
| **Gweithgaredd 2** | | | |
| • cyflwyno'r canlyniadau terfynol | • Gofynnwch i'r disgyblion gyflwyno eu cyflwyniad amlgyfrwng wedi'i gwblhau i'r dosbarth neu grŵp bach. Sicrhewch fod y disgyblion yn argraffu ac yn cadwnifer o ddrafftiau. Dangoswch iddynt sut i anodi pob drafft, e*.e.yn dangos pam y gwnaed y newidiadau dilynol.* Trafodwch ffyrdd o anodi dogfennau sydd wedi'u hargraffu i ddangos pethau fel cynnwys sain. | • cyflwyno eu gwaith amlgyfrwng, wedi'i anodi'n briodol | • o ganlyniad i'r gweithgaredd hwn, a thrwy'r gwaith y mae'r disgyblion wedi'i wneud yn ystod y gweithgaredd blaenorol, dylai fod yn bosib asesu lefel gwybodaeth a phrofiad y disgyblion o TGCh. |

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*

*© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg*